



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

gbpartnerships
DEVELOP . CONSULT . MANAGE

Adroddiad Terfynol Mantoli Dewisiadau Safle (18.12.20)

Paratowyd ar gyfer:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Cynnwys

• <u>Cyflwyniad</u>	3
• <u>Nod yr adroddiad</u>	3
• <u>Dewisiadau safle</u>	4
• <u>Meini prawf manteision</u>	5
• Canlyniad gwerthuso'r manteision	6
• Manylion gwerthuso'r manteision	7
• Crynodeb	8
• Atodiad	10
• <u>Atodiad 1</u> – Mynychwyr Gweithdy Rhanddeiliaid UGAGM_____	10
• <u>Atodiad 2</u> – Survey Monkey	12

1. Cyflwyniad

Fel rhan o gomisiwn cynllunio i ddylunio gofal iechyd, gofynnodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin gbp partnerships i geisio barn a safbwyntiau rheolwyr gwasanaeth lleol a'r ystod lawn o weithwyr clinigol lleol er mwyn deall pa safle fuasai orau ganddynt hwy o safbwynt gwerthuso'r manteision heb fod yn rhai ariannol.


Gofynnwyd i reolwyr a gweithwyr clinigol am eu barn a'r hyn fyddai orau ganddynt hwy trwy survey monkey a anfonwyd ar 8 Tachwedd 2020 at yr holl staff a wahoddwyd i 4 gweithdy am y briff dylunio a phob gweithdy wedi hynny yn Nhachwedd 2020. Am restr o'r staff a fynychodd y 4 gweithdy, gweler Atodiad 1.

2. Nod yr adroddiad

Bydd yr adroddiad byr hwn yn rhoi adborth ansoddol gan reolwyr gwasanaeth lleol a gweithwyr clinigol y gellir ei ddefnyddio fel gwybodaeth gan Dîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, ynghyd â gwybodaeth arall, i bennu'r dewis o safle am yr Uned Gwasanaeth Arbenigol i Gleifion Mewnol (UGAGM) newydd.

Mae modd defnyddio'r wybodaeth hefyd yn yr adran am achos economaidd achos busnes amlinellol y prosiect.


Mae'r ddau ddiagram isod yn darlunio cwmphas y gwerthusiad o'r ddau ddewis o safle, St Cadog a Llanfrechfa Grange, a gwerthusiad o'r manteision o safbwynt clinigol, gwasanaeth a gweithredol.



3. Dewisiadau safle

Mae dewis o ddau safle bosib:

1. Llanfrechfa Grange




Disgrifiad Cryno

Mae Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol newydd yn ganolfan ragoriaeth yng Ngwent i drin y rhan fwyaf o gleifion sy'n ddifrifol wael, neu'r sawl sydd ag anafiadau arwyddocaol, a dyma'r uned trawma dynodedig ar gyfer Gwent. Mae gan yr ysbyty 560 o welyau (gan gynnwys troliau a chrudiau) ac y mae yno Uned Asesu Aciwt 24-awr, Adran Frys a Phad Hofrennydd. Mae'n rhoi gwasanaeth Brys 24/7 i gleifion sydd angen gofal arbenigol a chritigol.

Mae'r gwasanaeth Anabledd Dysgu hefyd ar y safle ar hyn o bryd

Mae Fframwaith Datblygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn nodi'r tir fel Parc Meddygol posib. Rhaid i BIPAB benderfynu a yw am gadw'r tir i ehangu Ysbyty Prifysgol y Grange at y dyfodol a/neu i ddarparu gwasanaethau iechyd eraill.

2. St. Cadog



Disgrifiad Cryno

Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl a ganlyn ar y safle ar hyn o bryd:

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl i'r Henoed

Cynhaliwyd trafodaethau ar faterion cynllunio a materion yn ymwneud â thraffig ac ansawdd aer, a bydd angen ystyried y rhain wrth drafod unrhyw ddefnydd mwy o safle St Cadog.

4. Meini Prawf Manteision

Yr oedd rhan gyntaf y gwerthuso yn golygu cytuno ar restr o feini prawf manteision heb fod yn rhai ariannol i asesu'r ddau safle yn eu herbyn. O'r sgysiau cychwynnol, cynhyrchwyd rhestr drafft o feini prawf manteision, a'u cynnwys wedyn yn y survey monkey, ynghyd â drafft o gwestiynau am feini prawf y manteision. Am gopi o'r survey monkey, gweler Atodiad 2. Cyflwynwyd canlyniadau o'r survey monkey ym mhob gweithdy a chafwyd trafodaeth er mwyn deall safbwyntiau a dewisiadau'r staff.

Dengys Tabl 1 isod y meini prawf manteision heb fod yn rhai ariannol y cytunwyd arnynt a ddefnyddiodd rheolwyr a gweithwyr clinigol ym mhob gweithdy i asesu'r dewis am bob safle. Mae'r 9 maen prawf wedi eu rhestru yn nhrefn eu pwysigrwydd, h.y. 1 yw'r pwysicaf a 9 yw'r lleiaf pwysig, er eu bod oll yn bwysig am eu bod oll yn feini prawf manteision allweddol. (Trafodaeth oedd y gwerthusiad hwn yn hytrach na phroses strwythuredig o asesu).

Tabl 1. Rhestru Meini Prawf Manteision Heb Fod yn Ariannol

Gwerthuso'r Safle: Meini Prawf Manteision Allweddol	
1	A yw'r safle'n ddigon mawr i gynnwys yr holl wasanaethau fydd eu hangen (gan gynnwys tirweddau allanol a gerddi, uchafswm o ddau lawr) a digon o le i'r cyhoedd ac i barcio ceir?
2	A fydd y dewis yn gallu gwneud lle i ehangu yn y dyfodol?
3	A fydd y dewis yn hygyrch a hwylus i ddefnyddwyr gwasanaeth, staff ac ymwelwyr o ran cerdded, cludiant cyhoeddus a cheir?
4	A fydd y dewis yn rhoi delwedd gadarnhaol o iechyd meddwl a thrwy hynny helpu i leihau stigma a rhoi gofal iechyd meddwl ar yr un gwastad â gofal iechyd corfforol?
5	A fydd y dewis yn cefnogi/gwella recriwtio a chadw staff, h.y. amgylchedd gwaith hygyrch, sydd o ansawdd ac yn ddiogel ac yn cefnogi gweithio mewn timau amlddisgyblaethol (TA)?
6	A fydd y dewis yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir oherwydd gwell integreiddio, cyfathrebu a chyswllt rhwng gwasanaethau / timau / proffesiynau, oherwydd eu bod yn agos at ei gilydd ac yn rhannu amgylcheddau, e.e., cefnogaeth mewn argyfwng, barn feddygol gyflymach?
7	A fydd y dewis yn gwella cysylltiadau ac ymwneud â theuluoedd, gofalwyr a'r gymuned yn ehangach?
8	A fydd y dewis yn gwneud gwasanaethau a thimau yn fwy effeithlon h.y. gweithlu, rheolwyr a phrosesau wedi eu hintegreiddio?

- 9 Pa mor hawdd fydd cyflwyno'r dewis o ran gweithrediadau clinigol a gwasanaeth, h.y. symud, tarfu oherwydd adeiladu, etc?

5. Canlyniadau Gwerthuso'r Manteision

Gan ddefnyddio'r diffiniadau graddio RAG a ganlyn, dengys tabl 2 isod ganlyniadau'r gwerthuso manteision heb fod yn ariannol o safbwynt gwasanaeth, clinigol a staff gweithredol. Dengys y tabl mai safle Llanfrehfa Grange yw'r safle a ddewiswyd.

Tabl 2. Canlyniadau Meini Prawf Manteision Heb Fod yn Ariannol

Cyflwyno'r fantais yn llawn

Cyflwyno'r fantais yn rhannol

Nid yw'n cyflwyno'r fantais

Rhif	9 MAEN PRAWF MANTEISION ALLWEDDOL	DEWISIADAU SAFLE		
		1	2	3
		Busnes fel arfer	Safle St. Cadog	Safle Llanfrehfa Grange
1	A yw'r safle'n ddigon mawr i gynnwys yr holl wasanaethau fydd eu hangen (gan gynnwys tirweddau allanol a gerddi, uchafswm o ddau lawr) a digon o le i'r cyhoedd ac i barcio ceir?	heb fantoli ar hyn o bryd		
2	A fydd y dewis yn gallu gwneud lle i ehangu yn y dyfodol?	heb fantoli ar hyn o bryd		
3	A fydd y dewis yn hygyrch a hwylus i ddefnyddwyr gwasanaeth, staff ac ymwelwyr o ran cerdded, cludiant cyhoeddus a cheir?			
4	A fydd y dewis yn rhoi delwedd gadarnhaol o iechyd meddwl a thrwy hynny helpu i leihau stigma a rhoi gofal iechyd meddwl ar yr un gwastad â gofal iechyd corfforol?			
5	A fydd y dewis yn cefnogi/gwella recriwtio a chadw staff; h.y. amgylchedd gwaith hygyrch, sydd o ansawdd ac yn ddiogel ac yn cefnogi gweithio mewn timau amlddisgyblaethol (TA)?			
6	A fydd y dewis yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir oherwydd gwell integreiddio, cyfathrebu a chyswllt rhwng gwasanaethau / timau / proffesiynau, oherwydd eu bod yn agos at ei gilydd ac yn rhannu amgylcheddau, e.e. cefnogaeth mewn argyfwng, barn feddygol gyflymach?			
7	A fydd y dewis yn gwella cysylltiadau ac ymwneud â theuluoedd, gofawyr a'r gymuned yn ehangach?			

8	A fydd y dewis yn gwneud gwasanaethau a thimau yn fwy effeithlon h.y. gweithlu, rheolwyr a phrosesau wedi eu hintegreiddio?			
9	Pa mor hawdd fydd cyflwyno'r dewis o ran gweithrediadau clinigol a gwasanaeth, h.y. symud, tarfu oherwydd adeiladu, etc?			


Mae adran nesaf yr adran hon yn rhoi'r rhesymeg a gwybodaeth i gefnogi canlyniad sgorio pob un o feini prawf y manteision.

6. Manylion Gwerthuso'r Manteision

Nid oedd modd gwerthuso dau faen prawf cyntaf y manteision (1 a 2) yn y gweithdai gan nad yw'r rheolwyr a'r gweithwyr clinigol ar hyn o bryd yn gwybod beth fydd maint y cyfleuster UGAGM newydd o ran anghenion presennol a'r gallu i ehangu yn y dyfodol. Bydd y briff dylunio yn ateb y ddau gwestiwn o ran y meini prawf manteision.

Hygyrchedd yw'r 3^{ydd} a'r 7^{fed} maen prawf. Sgoriodd y dewis "busnes fel arfer" yn isel oherwydd bod y trefniadau gwasanaeth presennol yn golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd angen gwasanaethau diogelwch isel deithio allan o'r ardal am y gwasanaeth hwn. Yr oedd y rhan fwyaf o'r staff a fu yn y 4 gweithdy yn teimlo fod Llanfrehfa Grange yn gyffredinol yn lleoliad mwy canolog i ddalgyrch y gwasanaeth, sef Gwent gyfan (gweler y map isod).

Yr oedd y staff hefyd yn teimlo fod gan safle Llanfrehfa Grange well cysylltiadau cludiant cyhoeddus a ffyrdd na safle St Cadog, h.y., llwybrau bysus gyda chysylltiadau da a rhwydwaith ffyrdd (A4042 gweler y map isod). Byddai hygyrchedd cerdded a pharcio ceir i'r naill safle a'r llall yn dibynnu ar union leoliad yr adeiladau newydd mewn campws mwy, a dyluniad seilwaith y safle yng nghyswllt yr UGAGM newydd. Derbyniwyd y gall fod angen cerdded am ryw 5 i 10 munud o'r arosfan bysus agosaf at fynedfa'r cyfleuster newydd i'r naill ddewis a'r llall o safle.



Mae a wnelo'r 4^{ydd} maen prawf â delweddau cadarnhaol o iechyd meddwl. Unwaith eto, teimlai'r rhan fwyaf o'r staff mai safle Llanfrechfa Grange oedd orau ganddynt o ran delweddau cadarnhaol o iechyd meddwl a lleihau stigma, gan y byddai nesaf at wasanaethau gofal iechyd corfforol ac yn gyfartal iddynt, h.y. Ysbyty Prifysgol y Grange gyda'i enw da fel "canolfan rhagoriaeth". Mae gan safle St Cadog hefyd hanes maith, gan iddi gael ei hagar ym 1906 fel Seilam Bwrdeistref Casnewydd, ac y mae hanes y Seilam hon yn aml yn gysylltiedig â'r gorffennol ac â stigma iechyd meddwl. Yr oedd y staff yn teimlo na fyddai'r cyfleuster newydd fyth yn dianc rhag stigma'r gorffennol oni fyddai'n cael ei godi ar safle Llanfrechfa Grange.

Ystyriodd y 5^{ed} maen prawf pa safle fyddai'n cefnogi recriwtio a chadw staff. Yr oedd y trafodaethau yn canoli ar hygyrchedd gan y bydd ansawdd, diogelwch ac integreiddio'r amgylchedd gwaith yn cael eu cyflwyno trwy ddyluniad yr adeilad ac nid y dewis o safle. Am yr un rheswm â'r 3^{ydd} maen prawf yr oedd yn well ganddynt safle Llanfrechfa Grange.

Graddiwyd y ddau safle'n gyfartal am y 6^{ed} maen prawf, gan y bydd y fantais hon hefyd yn cael ei chyflwyno'n bennaf trwy ddyluniad yr adeilad newydd a'r ffordd y mae'r staff yn gweithio, nid y dewis o'r safle. Ystyriwyd sut y byddai symud i safle Llanfrechfa Grange yn cael effaith ar y gwasanaethau iechyd meddwl fyddai ar ôl ar safle St Cadog a chynllunio strategol stadau ehangach y Bwrdd Iechyd. Yr oedd y staff hefyd yn deall nad oes rheidrwydd mawr i gysylltu ag Ysbyty newydd y Grange am mai gofalu am gleifion difrifol wael yn unig yr oedd, ac felly anaml y byddai gwasanaethau iechyd meddwl yn cyfeirio at Ysbyty Prifysgol y Grange.

Yr oedd y ddau safle hefyd wedi eu graddio'n gyfartal o ran yr 8^{fed} maen prawf, sef gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a thimau, h.y. gweithlu, rheolwyr a phrosesau wedi eu hintegreiddio,

gan y bydd y fantais hon yn cael ei gyflwyno trwy ddyluniad yr adeilad newydd a'r ffordd y mae staff yn gweithio, nid y dewis o safle.

Nid yw'r 9^{fed} maen prawf manteision, a'r olaf, mor syml i'w werthuso yng nghyfnod cynnar y prosiect hwn, gan nad oes cynllun i'r prosiect, a dim manylion am sut y caiff yr UGAGM ei adeiladu, ac nad oes amserlenni. Os codir yr adeilad newydd ar safle St Cadog, mae'n debyg y bydd tarfu yn digwydd oherwydd y gwaith adeiladu nesaf at wasanaethau sy'n bodoli eisoes. Os mai ar safle Llanfrechfa Grange y bydd yr UGAGM newydd, gall y gwasanaethau presennol symud i'r adeilad newydd heb unrhyw darfu; ond yn dibynnu ar gynlluniau adeiladu eraill ar gyfer y campws ehangach, gall tarfu yn wir ddigwydd oherwydd prosiectau adeiladu newydd eraill gerllaw'r UGAGM yn y tymor hwy.

7. Crynodeb

Mae'n well gan reolwyr a gweithwyr clinigol lleol safle Llanfrechfa Grange ar gyfer codi'r UGAGM newydd. Hygyrchedd (meini prawf rhif 3, 5 a 7) a delweddau cadarnhaol o iechyd meddwl/llenhau stigma (maen prawf rhif 4) yw'r meini prawf sy'n gwahaniaethu rhwng y ddau safle i'w dewis.

Mae'r adborth ansoddol hwn gan reolwyr gwasanaeth lleol a gweithwyr clinigol yn rhan bwysig o'r dadansoddiad cost / budd sy'n rhaid ei wneud er mwyn pennu pa safle sydd orau i'r UGAGM newydd. Mae darnau allweddol eraill o wybodaeth y mae'n rhaid eu hystyried, gan gynnwys:

- A yw'r safle'n ddigon mawr i gynnwys gofynion y manylir arnynt yn y briff dylunio?
- Gwerthuso risg i'r naill safle a'r llall, gan gynnwys materion caniatâd cynllunio a lein y rheilffordd a'r llwybrau cyhoeddus ar safle St Cadog (codwyd y 3 mater yn y gweithdai)
- Gwerthusiad ariannol y naill safle a'r llall
- Ymwneud ehangach â'r cyhoedd/ adborth o'r ymgynghori

Atodiad

Atodiad 1.

Mynychwyr Gweithdai Rhanddeiliaid UGAGM

Gwahoddir y canlynol i'r 4 o Weithdai UGAGM	
Rheolwr Rhaglen – Stadau Cyfalaf Strategol	
Cyfarwyddwr Prosiect SCCC	
Uwch-Reolwr Rhaglen	

Gwasanaeth – Gofal Aciwt Anableddau Dysgu – Cyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu	
Rôl	Rôl/Cyfraniad
Cyfarwyddwr Rhanbarthol IM ac AD	Clinigol a Rheoli
Cyfarwyddwr Clinigol Anabledd Dysgu	Clinigol a Rheoli
Seiciatrydd Ymgynghorol	Seiciatreg



Cyd-Bennaeth Gwasanaethau Seicolegol Anabledau Dysgu	Seicoleg
Nyrs Arweiniol AD	Nyrsio
Uwch Nyrs Anabledau Dysgu	Nyrsio
Rheolwr Cyfarwyddiaeth, AD	Rheoli
Therapydd Galwedigaethol	Clinigol
Pennaeth Therapi Celf	Clinigol

Gwasanaeth – Asesu a Thriniaeth Argyfwng – Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion	
Rôl	Rôl/Cyfraniad
Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Oedolion	Meddygol a Rheoli
Meddyg Ymgynghorol, Gwasanaethau Oedolion	Meddygol
Uwch Nyrs	Nyrsio
Arweinydd Clinigol /Nyrs	Nyrsio
Seicolegydd Clinigol	Seicoleg
Uwch Nyrs	Nyrsio
Seiciatrydd Ymgynghorol	Meddygol
Uwch Nyrs Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Mynwy a BG	Nyrsio
Rheolwr Tîm, HTTCR	Nyrsio
Arweinydd Clinigol, Arweinydd ThG IM	Arweinydd Clinigol /ThG
Pennaeth Therapiau Galwedigaethol	ThG

Gwasanaeth – Diogelwch Isel – Cyfarwyddiaeth Fforensig	
Rôl	Rôl/Cyfraniad
Seiciatrydd Ymgynghorol,	Meddygol
Seiciatrydd Ymgynghorol De Caerffili	Meddygol
Seicolegwyr Clinigol/Fforensig	Seicoleg Glinigol
Arweinydd Clinigol, Seicolegydd, Fforensig	Arweinydd Clinigol /Seicoleg
Rheolwr Gwasanaeth CIC	Rheoli
Uwch Bartner Busnes Gweithlu	Rheoli
Cyfarwyddwr Clinigol, Gwasanaeth IM Oedolion	Meddygol / Rheoli
Uwch Nyrs	Nyrsio
Rheoli Strwythur Clinigol	Seicoleg
Rheolwr Ward, Pillmawr	Nyrsio
ThG Arbenigol	ThG

Gwasanaeth – Gofal Dwys Seiciatryddol – Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion

Rôl	Rôl/Cyfraniad
Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Oedolion	Clinigol a Rheoli
Seiciatrydd Ymgynghorol	Meddygol
Nyrs Rhanbarthol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Nyrsio
Pennaeth Seicoleg Oedolion	Seicoleg
Seicolegydd Clinigol	Seicoleg
Rheolwr Cyfarwyddiaeth, Iechyd Meddwl Oedolion	Nyrsio
Uwch Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Nyrsio
Rheolwr Ward	Nyrsio
Pennaeth Proffesiynol Therapi Galwedigaethol	ThG
Therapi Galwedigaethol	ThG
Arweinydd Clinigol, Seicolegydd, Fforensig	Arweinydd Clinigol /Seicoleg

Atodiad 2.

Survey Monkey

Arolwg Adborth Rhanddeiliaid Briff Dylunio Aneurin Bevan

Ni ddylai'r arolwg byr hwn gymryd mwy na 15 munud i'w gwblhau, a defnyddir eich ymateb fel sail i gynllunio'r gweithdai am y briff dylunio sydd ar y gweill.

Teitl y Cwestiwn

1. Yn gyffredinol, beth ydych chi'n obeithio gael o'r prosiect hwn i adeiladu UGAGM newydd i'ch gwasanaeth? (*rhewch fanylion isod, mewn 5 brawddeg neu lai*)

Teitl y Cwestiwn

2. Beth yw eich pum prif flaenoriaeth i'r prosiect hwn i adeiladu UGAGM newydd?

Teitl y Cwestiwn

3. Disgrifiwch eich uned/cyfleuster presennol. (*rhowch eich meddyliau isod mewn 5 brawddeg nau lai*)

Teitl y Cwestiwn

4. **O feddwl am eich amgylchedd ffisegol presennol**, beth sy'n gweithio'n dda? (*rhestrwch y 5 prif beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd*)

Teitl y Cwestiwn

5. **O feddwl am eich amgylchedd ffisegol presennol**, beth nad yw'n gweithio cystal? (*rhestrwch y 5 prif beth nad ydynt yn gweithio cystal ar hyn o bryd*)

Teitl y Cwestiwn

6. Pa elfennau yn yr amgylchedd ffisegol y gellid eu gwella i greu 'amgylchedd i wella' a hwyluso adferiad y cleifion? (*Rhowch y pum prif flaenoriaeth isod*)

Teitl y Cwestiwn

7. Oes yna unrhyw beth arall am yr amgylchedd ffisegol y gellid ei wella i greu 'amgylchedd i wella'?

Teitl y Cwestiwn

8. O safbwynt ymarferol a gweithredu o ddydd i ddydd, beth yw'r 5 ystyriaeth dylunio pwysicaf ddylai gael eu hadlewyrchu yn y briff dylunio? (*nodwch y pum elfen bwysicaf yn y blychau isod*)

Fe fyddwch yn ymwybodol fod dewis o ddau safle ar gyfer yr adeiladau newydd: safle St.Cadog a safle Llanfrechfa. O safbwynt clinigol, gwasanaeth a gweithredol yn unig, mae angen i ni bennu p'un yw'r safle i'w ddewis.

I werthuso pob safle, mae angen i ni gytuno ar restr o feini prawf manteision allweddol er mwyn asesu pob safle yn eu herbyn.

O waith y gallasech fod wedi bod yn rhan ohono o'r blaen, drafftwyd rhestr fer o'r 10 maen prawf manteision allweddol isod:

Teitl y Cwestiwn

9. Rhestrwch y meini prawf o 1-10, gyda 10 yn flaenoriaeth uchaf. Os nad ydych yn cytuno â chynnwys unrhyw rai o'r meini prawf, ticiwch y blwch D/G.

- 1) A yw'r safle'n ddigon mawr i gynnwys yr holl wasanaethau fydd eu hangen (gan gynnwys tirweddau allanol a gerddi, uchafswm o ddau lawr) a digon o le i'r cyhoedd ac i barcio ceir?
- 2) A fydd y dewis yn gallu gwneud lle i ehangu yn y dyfodol?
- 3) A fydd y dewis yn hygyrch a hwylus i ddefnyddwyr gwasanaeth, staff ac ymwelwyr o ran cerdded, cludiant cyhoeddus a cheir?
- 4) A fydd y dewis yn rhoi delwedd gadarnhaol o iechyd meddwl ac felly yn helpu i leihau stigma?

- 5) A fydd y dewis yn cefnogi recriwtio a chadw staff; h.y. amgylchedd gwaith hygyrch, sydd o ansawdd ac yn ddiogel ac sy'n cefnogi gweithio mewn TA, etc?
- 6) A fydd y dewis yn gwella integreiddio, cyfathrebu a chyswllt â gwasanaethau / timau eraill oherwydd y byddant yn nes at ei gilydd?
- 7) A fydd y dewis yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir trwy well mynediad at TA ehangach a mwy, e.e., barn feddygol, cefnogaeth mewn argyfwng?
- 8) A fydd y dewis yn gwella cysylltiadau ac ymwneud â theuluoedd, gofalwyr a'r gymuned yn ehangach?
- 9) A fydd y dewis yn gwneud gwasanaethau a thimau yn fwy effeithlon h.y. gweithlu a phrosesu wedi'u hintegreiddio; rhannu gofod, etc.
- 10) Pa mor hawdd fydd cyflwyno'r dewis o ran gweithrediadau clinigol a gwasanaeth, h.y. symud, tarfu oherwydd adeiladu, etc?

Teitl y Cwestiwn

10. Nodwch isod os credwch fod unrhyw feini prawf allweddol nad ydym wedi ymdrin â hwy:

Teitl y Cwestiwn

11. Mae dewis i newid geiriad y meini prawf. Os credwch y byddai'r cysyniad yn cael ei fynegi'n well fel arall, a fyddwch cystal ag ail-eirio'r meini prawf yn y lle a roddwyd.

Diolch am gymryd amser i lenwi'r arolwg hwn.